

ECAD5007/C



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Paratoi yn ystod PAP2
Preparation during PTE2

Nodau *Aims*

- Rhannu trosolwg bras o ffocws y modwl
- Ystyried sut y gall PAP2 eich helpu i baratoi ar gyfer y modwl hwn.

- *Share a brief overview of the focus of the module*
- *Consider how PTE2 can help you prepare for this module.*

Amcanion y modwl

- arddangos tystiolaeth o ddealltwriaeth ddyfnach o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n sail i ddatblygiad, lles a dysgu plant rhwng 0 a 19 oed, gan gynnwys materion cyfoes e.e. ffoaduriaid a dysgwyr a effeithiwyd gan wrthdaro;
- adnabod a myfyrio ar gyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys credoau a thybiaethau personol a'u heffaith ar ymarfer personol;
- adnabod, gweithredu ac adfyfyrio ar ddulliau effeithiol ar gyfer diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr mewn gwahanol leoliadau.

Module aims

- evidence a deeper understanding of theories and research that underpin child development, well-being and learning from 0-19 years, including contemporary issues e.g. refugees and learners affected by conflict;
- identify and reflect on professional and legal responsibilities of working with children and young people, including personal beliefs and assumptions and their impact on personal practice;
- Identify, implement and reflect on effective approaches for meeting the diverse needs of all learners in different settings.

Aseiniad

Assignment

- Ffocysu ar ymyrraeth ar gyfer cefnogi datblygiad a chynnydd yn nysgu disgybl yn CA2
- *Focuses on an intervention to support development and progression in a pupil's learning in KS2*

Tasgau i'w cyflawni yn ystod PAP2
Tasks to be completed during PTE2

Nodwch ddysgwr/ddysgwyr yn eich dosbarth sydd angen cefnogaeth neu ymyriadau ychwanegol. Beth yw eu hanghenion? E.e. cymdeithasol, emosiynol, deallusol, ymddygiadol, datblygiadol, ieithyddol, corfforol, llythrennedd, rhifedd ac ati.

Identify a learner/learners within your class that require additional support or interventions. What are their needs? E.g. social, emotional, intellectual, behavioural, developmental, linguistic, physical, literacy, numeracy etc.

Tasg/Task 1

- Gwnewch nodiadau arsylwadol ynglŷn â'r unigolion hyn a sut y gall eu hanghenion effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad. Ystyriwch grwpio, gwahaniaethu (os yw'n berthnasol), grwpiau cymheiriaid ac ati ac unrhyw faterion eraill perthnasol.
- *Make observational notes regarding these individuals and how their needs may impact on their learning and development. Consider grouping, differentiation (if applicable), peer groups etc. and any other issues you consider relevant.*

Tasg/Task 2

Cynlluniwch gyfle i arsylwi ar yr ymyriadau hyn a gwnewch nodiadau ynghylch:

a) p'un a yw'r rhain yn rhai dosbarth cyfan, grŵp neu unigolyn

b) yr amgylchedd maen nhw'n cymryd lle - tu fewn neu tu allan i'r ystafell ddosbarth

c) effaith ar ddysgu a / neu ddatblygiad

ch) pwy sy'n arwain yr ymyriadau hyn – athro/athrawes neu gynorthwy-ydd?

e) pa mor effeithiol ydyn nhw?

Plan an opportunity to observe these interventions and make notes regarding:

- a) whether these are whole class, group or individual
- b) the environment they take place - inside or outside the classroom
- c) impact on learning and/or development
- d) who leads these interventions – teacher or TA?
- e) how effective are they?

Tasg/Task 3

- Yn dilyn eich arsylwadau, mae angen i chi gynnal deialog broffesiynol gyda'r athro/athrawes a/neu'r cynorthwy-ydd ynghylch nodiadau a wnaed yn ystod **TASG 2**. Trefnwch amser cyfleus gyda'r staff ar gyfer hyn a pharatowch rai cwestiynau ymlaen llaw fel bod gennych ffocws glir.
- *Following your observations, you need to engage in professional dialogue with the teacher and/or TA regarding notes made during **TASK 2**. Organise a convenient time with staff for this and prepare some questions beforehand so you have a clear focus.*

Pam mae hyn yn bwysig?

Why is this important?

- Bydd y tasgau hyn yn cael eu rhannu yn ystod sesiynau ECAD5007C yn ogystal â bod yn gyfrwng i lywio'ch aseiniad.
- Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y tasgau, yna e-bostiwch:

m.bowen@uwtsd.ac.uk

NEU

n.ryder@uwtsd.ac.uk

- *These tasks will be shared during ECAD5007 sessions as well as inform your assignment.*
- *If you have any questions regarding the tasks, then e-mail:*

m.bowen@uwtsd.ac.uk

OR

n.ryder@uwtsd.ac.uk

